O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 3101 (Cy. 323 )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Yng Nghyffiniau Cylchfan Cefncoedycymer, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Yng Nghyffiniau Cylchfan Cefncoedycymer, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 yng nghyffiniau Cylchfan Cefncoedcymer ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feiciau o'r fath gael eu reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 29 Rhagfyr 2011

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**YR ATODLEN**
**Gwahardd cerbydau a beicwyr**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cefncoedycymer yr A470 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Grawen Lane.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Lower Vaynor Road hyd at y marciau 'Ildiwch' wrth Gylchfan Cefncoedycymer yr A470.

Hyd cyfan y ffordd gyswllt tua'r gorllewin o Lower Vaynor Road i ymuno â chefnffordd yr A465.